**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 5 Medi 2023 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | P Downing | A J Jeffery |
| M H Jones | S E Keeton | M B Lewis |
| R D Lewis | N L Matthews | M S Tribe |
| T M White | R A Williams | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Matthew Bowyer | Prif Beirianydd Telematics |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Eilian Jones | Arweinydd Tîm Ardal |
| Sally-Ann Evans | cyfreithiwr arweiniol |
| Hayley Kemp | Arweinydd Tîm Ardal |
| Dave Owen | Prif Swyddog Cynllunio |
| Jonathan Wills | cyfreithiwr arweiniol |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorwyr C R Doyle, M Jones, P M Matthews, A Pugh ac M W Locke

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim

---

## 15 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 16 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 1 Awst 2023 fel cofnod cywir.

## 17 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.

Dim.

## 18 Penderfynu ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r ceisiadau cynllunio isod.

**(Eitem 1) – Cais Cynllunio 023/1523/FUL - Cynnig i osod polyn telathrebu 5G: Polyn stryd H3G main 20m o uchder a chabinetau cysylltiedig gyda gwaith ategol ar dir yn Trallwn Road, Llansamlet, Abertawe.**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Siaradodd Janet Lovell, Robert Allender a Barbara Smith (gwrthwynebwyr) yn erbyn y cais.

Siaradodd y Cynghorwyr Matthew Jones, Ryland Doyle, Penny Matthews ac Alyson Pugh (Aelodau Lleol) yn erbyn y cais..

**(Eitem 2) Cais Cynllunio 2022/1109/RES - Adeiladu 35 o fflatiau ac 8 tŷ trefol a gwaith cysylltiedig, (manylion mynediad, golwg, tirlunio, cynllun, graddfa yn unol ag amodau 6, 8, 9 17 caniatâd cynllunio amlinellol 2015/1584 a roddwyd ar 13 Mai 2016 (oedd yn amrywio 2008/0996 ac yn amrywio 2002/1000) ar gyfer datblygiad defnydd cymysg Glannau SA1 Abertawe yn llain D5b, tir i'r de o Fabian Way ac i'r dwyrain o afon Tawe, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Siaradodd Tracey Thomas (gwrthwynebwr) yn erbyn y cais.

Siaradodd Laura Fower (asiant) o blaid y cais.

Siaradodd y Cynghorydd Michael Locke ar ran y Cynghorydd Sam Bennett (Aelod Lleol) yn erbyn y cais.

Roedd Aelodau'r pwyllgor wedi ymweld â safle'r cais ar fore'r cyfarfod.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Mae 5 llythyr gwrthwynebu hwyr pellach wedi'u derbyn sydd i raddau helaeth yn ailadrodd pwyntiau gwrthwynebu sy'n bod ac yn gwneud y pwyntiau canlynol:
• mae'r cais cynllunio'n torri'r Ddeddf Hawliau Dynol a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 am resymau economaidd-gymdeithasol.
• mae gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol am resymau cymdeithasol ac economaidd yn erbyn y gyfraith ac nid yw'n cynnal gwerthoedd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.
• achos yng Ngwlad yr Haf lle lladdwyd cwpwl gan gymydog dros anghytundeb parcio annigonol a pharhaus.

• bydd y prif gynllun defnydd tir yn cael ei adolygu, ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo bob 2 flynedd. Nid yw wedi cael ei adolygu ers 2015 felly nid yw'n ddilys mwyach.
• mae gwrthod ceir preswylwyr yn cyfyngu ar allu i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth.
• mae rheoli parcio'n dangos y gwrthodwyd parcio ar gyfer 22 o fflatiau Mae hyn yn rhwygol ac yn annhebygol o hyrwyddo "cymuned gydlynus" fel sy'n ofynnol gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
• dim parcio i ymwelwyr
• nid yw'r cynigion arfaethedig yn dangos unrhyw welliant o ran y diffyg darpariaeth lleoedd parcio ceir yn y datblygiad
• disgrifir y dramwyfa fynediad ar 1:15 fel "heriol". Mae'n gul, gyferbyn â chyffordd ar ffordd brysur. Mae llai o welededd oherwydd y graddiant yn cynyddu'r risg o ddamweiniau.
• mae gosod seilbyst a gwaith adeiladu yn cynhyrchu sŵn, llwch a thraffig, gan effeithio ar ansawdd bywyd preswylwyr, mwynhad o'u heiddio a thorri'r Ddeddf Hawliau Dynol o bosib. Mae gweithgarwch gosod seilbyst lleol wedi bod yn ymwthiol.
• tarfu yn ystod gwaith adeiladu
• dim man gwyrdd cymunedol yn ward y Glannau. Addawyd parc rhwng D5b a D9b ers 2018, ond ni ddarparwyd hyn.
• awgrymir creu lleoedd parcio ychwanegol yn Langdon Road.
• nid yng nghraidd y ddinas
• mae parcio wedi cynyddu ers yr adeiladwyd Harbour Quay.
• mae gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn brin
• nid yw'n glir faint o fannau gwefru cerbydau trydan fydd yn cael eu darparu, os o gwbl.
• mae parcio heb ganiatâd yn y datblygiadau amgylchol eisoes yn broblem
• mae uchder yr adeiladau arfaethedig yn golygu y byddent yn edrych dros eiddo presennol gan effeithio ar breifatrwydd. Nid oedd unrhyw sôn am hyn pan brynwyd yr holl dai ar Langdon Road Gall hyn hefyd ddylanwadu ar werth tai.
• bydd yr ardal hon yn dod yn orlawn a bydd gorboblogi pan fydd yn lleoliad ac yn ardal y mae pobl yn dymuno byw ynddi
• nid oes gofyniad ar hyn o bryd am dai fforddiadwy yn yr ardal, felly nid yw'r cynlluniau'n cyd-fynd â'r datganiadau cyfredol a roddwyd gan yr adran Tai

Sylwer: Cymeradwywyd y cais yn amodol ar gytundeb Adran 106.

## 19 Cais Cynllunio: 2022/1230/FUL - Penderfyniad Apel.

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn manylu ar ganlyniad apêl yn erbyn penderfyniad y pwyllgor ar Hydref 2020 i wrthod cais cynllunio ar dir yn Nhrehafod, Waunarlwydd Road,
Y Cocyd, Abertawe.

Amlinellwyd a manylwyd ar y rhesymau a roddwyd gan yr Arolygydd Cynllunio dros ganiatáu'r apêl yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.39 pm

**Cadeirydd**